**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-597
Ein cyf/Our ref LG/05073/14

William Powell AM
Assembly Member for Mid & West Wales
Chair Petitions Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

2 Hydref 2014

Annwyl William

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch deiseb Catherine Patricia Jones am gyfraniad pobl ifanc a'r Ddraig Ffynci.

Hoffwn eich sicrhau nad yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc gyfle i gymryd rhan wedi newid. Rydym yn parhau i ariannu model cenedlaethol sy'n sicrhau bod ganddyn nhw gyfle i gael dweud eu dweud. Mae'r model hwn, sy'n cael ei arwain gan Plant yng Nghymru a'i gefnogi gan y Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd, yn ystyried y gwaith y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i wneud i ymgysylltu â phlant yn ogystal â deddfwriaeth fel Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru). Bydd Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth â Chynllun Tros Gynnal a Voices From Care gyda chefnogaeth Barnardos Cymru, Gweithredu dros Blant, ProMo Cymru a Youth Friendly.

Rwy'n hyderus y bydd y penderfyniadau a'r prosesau ynghylch y Grant Cynnal Plant a Theuluoedd yn gadarn a chytbwys. Rwy'n deall bod rhai pobl yn siomedig na wnaeth cais y Ddraig Ffynci ddod i'r brig y tro hwn ond hoffwn wneud yn glir nad oes unrhyw arian wedi cael ei dynnu'n ôl ynghylch cymryd rhan. Yn hytrach, rydym wedi cynnal proses agored a theg sydd wedi galluogi darparwyr y Trydydd Sector i ddod ynghyd i fidio am feysydd blaenoriaeth sy'n cyfrannu at drechu tlodi. Un o'r meysydd hynny yw cyfleodd systematig i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a rhoi cyfle i'w lleihau hwy gael eu clywed.

Yn fy rôl gweinidogol newydd, byddaf yn annog plant a phobl ifanc ynghyd â'm cyd Weinidogion i ymgysylltu â model cymryd rhan cenedlaethol Plant yng Nghymru. Hefyd, byddaf yn cyfarfod â'r Llywydd ym mis Hydref i drafod sut gallwn gyfuno ein ffyrdd gwahanol o weithio er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc Cymru yn cael cynrychiolaeth deg ar lwyfan ryngwladol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

Gobeithio, drwy wneud fy mwriadau'n glir fel hyn, bod y Pwyllgor wedi'i argyhoeddi bod sicrhau bod plant a phobl ifanc yn parhau i gael cyfleoedd i gymryd rhan yn allweddol i'r gwaith o ddatblygu a chynnal ein polisïau a'n gwasanaethau. Byddwn yn sicrhau, heb eithriad, bod llais ein plant a'n pobl ifanc yn cael ei glywed wrth i'r Llywodraeth hon fynd ymlaen â'i gwaith.

Yn gywir

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty